



Mehefin 2014

Gwyliau Bwyd Môr



Ym mis Mehefin, fe aeth y tîm EFF i wyl “Blas y Môr” a gynhaliwyd yn Aberdaron, a Gŵyl Bysgod Sir Benfro yn Aberdaugleddau. Cawsom amser gwych yn y ddwy wyl (ar waethaf glaw llifeiriol yn Aberdaugleddau) yn dweud wrth bobl am y gwaith cyffrous rydym wedi bod yn ei wneud. Gwelwch ein lluniau ar Facebook a Twitter (<https://www.facebook.com/fisheriesconservation>). Mae gennym ddwy o wyliau eraill y byddwn yn eu mynychu a gobeithiwn eich gweld yno!


Awst 16, 2014 – Gŵyl Môr i’r Glannau yn Aberystwyth

Awst 30, 2014 – Gŵyl Bwyd Môr Menai ym Mhorthaethwy (<http://www.menaiseafoodfestival.com/>)

Byddwn yn siarad am y gwahanol ymchwil rydym yn ei wneud, yn arddangos yr offer ymchwil a’r gêr pysgota a ddefnyddiwn, ac yn dangos fideos rydym wedi’u tynnu o dan y dŵr.

Gobeithiwn eich gweld yno!

Symposiwm ICES ar effaith pysgota, Tromso, Norwy



Michel Kaiser yn cyflwyno araith allweddol yn Symposiwm ICES ar effeithiau pysgota yn Tromso

Cyflwynodd Michel Kaiser araith gyweirnod a chyflwynodd Gwladys Lambert ei gwaith ymchwil ar *'Quantifying recovery rates of seabed habitats after fishing'*, yn Symposiwm ICES yn Tromso. Yn ystod y gynhadledd 3 diwrnod a fynychwyd gan dros 100 o arbenigwyr rhyngwladol ym maes ecoleg pysgodfeydd morol, fe wnaeth Jan Hiddink, Marija Sciberras a Claire Catherall o Brifysgol Bangor roi cyflwyniadau oedd yn trafod effeithiau pysgota dyfnforol mewn cynefinoedd ym Môr y Gogledd, Môr Iwerddon a'r Sianel, ac fe wnaeth Kath Hughes drafod y fethodoleg, a'r rhesymau dros ac yn erbyn dadansoddiad meta ac adolygiadau systematig.

Holiadur Pysgotwyr

Mae holiadur gwybodaeth pysgotwyr yn dal ei gynnal ar hyn o bryd gyda physgotwyr ledled Cymru a bydd yn parhau tan yr haf. Hyd yn hyn cwblhawyd 61 holiadur; 29 yng Ngogledd Cymru, 11 yng Nghanolbarth Cymru a 21 yn Ne Cymru. Rydym yn gobeithio cael y rhan fwyaf o'r holiaduron wedi'u cwblhau erbyn diwedd haf 2014 a gallu symud i gyfnod dadansoddi. Rydym yn gobeithio trefnu cyfweiliadau gyda physgotwyr, felly os oes gennych ddiddordeb cysylltwch â Julia (j.pantin@bangor.ac.uk).

Gallwch hefyd gofrestru ar ein gwefan (cliciwch ar y ddolen 'Cymryd Rhan' ('Get Involved') ar <http://fisheries-conservation.bangor.ac.uk>).

Mae'r holiadur hwn o'r pwysigrwydd pennaf gan y bydd yn canfod ardaloedd o'r arfordir sydd bwysicaf i bysgotwyr, yn darparu portffolio o dystiolaeth annibynnol i'r diwydiant pysgota i'w ddefnyddio wrth fynd rhagddo, a llywio ein dealltwriaeth o fioleg y rhywogaethau masnachol pwysig yng Nghymru.

Cyfweiliadau economaidd

Mae'r dadansoddiad o'r cyfweiliadau economaidd wedi dechrau ac mae adnabyddiaeth o segmentau'r llynges o safbwynt technegol ac economaidd yn cael eu hasesu. Bydd yr holl ddadansoddiadau yn seiliedig ar yr wybodaeth a geir o'r strwythur economaidd a gasglwyd yn ystod

y cyfweiliadau, gyda chyfanswm o 56 o gychod wedi eu cofnodi. Diolch unwaith eto i'r holl bysgotwyr sy'n rhan o'r arolwg.

Y gragen foch fwyaf



Cregyn moch mwyaf wedi eu tagio ac yn barod i'w dychwelyd i'r môr; cregyn moch mwyaf yn dringo allan o'r fwced, yn amlwg yn methu disgwyl i gael eu tagio!

Mae'n dau fyfyrwr MSc wedi dechrau ar eu gwaith. Maent wedi bod allan gyda Jodie yn tagio'r gragen foch fwyaf yng ngogledd a de Cymru. Byddwn yn amcangyfrif y cyflenwad lleol a symudiadau tymor byr y cregyn moch mwyaf. Rydym yn defnyddio bandiau elastig trwchus (dull a ganfuwyd i fod yn fwyaf dibynadwy yn ystod astudiaethau tymor byr) ar gyfer tagio. Ar hyn o bryd mae gan y ddau fyfyrwr ail astudiaeth cadw tagiau yn asesu'r bandiau y byddwn yn eu defnyddio ac arbrawf arall yn edrych ar ymddygiad ar ôl tagio.



Roedd tagio'n gymaint o hwyl nes bod yn rhaid i Nigel, y capten, gymryd rhan.



Cregyn bylchog

Pysgodfa arbrofol

Mae'r dadansoddi data wrthi'n cael eu gwneud ar gyfer y prawf pysgota arbrofol. Mae'r ymdrech bysgota ym mhob bocs arbrofol wedi cael eu mapio a'u mesur. Dadansoddwyd y lluniau a dynnwyd o wely'r môr yn ystod yr arolwg ôl arbrofol ym mis Mai (h.y. cafodd y rhywogaethau eu hadnabod

a'u cyfrif, a chategoreiddio'r math o waddod). Mae'r ddogfen dendro ar gyfer dadansoddi sampl y bachiad, a gynhelir gan drydydd parti, wedi cael ei ddrafftio ac fe'i hanfonir allan yn fuan.

Samplo'r haf



Babette Bookelar a Jen Fox yn prosesu'r cregyn bylchog yn y lab

Mae samplo cragen Aberffro (*Pecten maximus*; King scallop) yn ystod yr haf yn mynd yn dda gyda 216 o'r cregyn wedi eu prosesu hyd yn hyn. Rydym yn dechrau adeiladu darlun o amser silio cregyn bylchog i'r gogledd o Ynys Môn, Bae Lerpwl a Bae Caernarfon. Mae prosesu yn golygu mesur, pennu oedran a phwyso'r cregyn bylchog, yn ogystal â chymryd samplau ar gyfer geneteg, samplau gonadau ar gyfer astudiaethau ffrwythlondeb ac edrych ar y gonadau i weld beth yw cyflwr eu haeddfedrwydd. Diolch yn fawr i bawb o'r pysgotwyr sy'n cymryd rhan!



Pysgod adeiniog

Draenogiaid môr



Mae casglu data ar gyfer y tymor silio (Tachwedd 2013-Ebrill 2014) eleni newydd orffen gyda thua 220 o ddraenogiaid môr wedi'u dadansoddi. Yn ddiddorol roedd uchafbwynt y tymor silio 2013-2014 ym mis Mawrth, pan oedd y mynegai gonad-somatig yn uchel ar gyfer gwrywod a benywod. Rydym yn cynhyrchu canllaw i helpu i ddosbarthu'r cam aeddfed o ddraenogyn yn seiliedig ar ein lluniau o'r gonadau ac ar baramedrau biolegol (e.e. hyd y gonadau/hyd y pysgodyn, pwysau'r gonadau/pwysau'r pysgodyn).

Yn olaf, ar ôl blwyddyn, rydym wedi dechrau casglu peth gwybodaeth fiolegol ar bysgod sydd wedi eu dal yng Nghanolbarth Cymru. Llauer iawn o ddiolch i'r pysgotwr sy'n cymryd rhan!


Mae myfyrwyr a chynorthwywyr newydd wedi ymuno â'n "grŵp draenogiaid". Croeso i Abigail Jane Carroll, ein myfyriwr gradd Meistr sy'n astudio dynameg poblogaethau o ddraenogiaid o amgylch Cymru. Mae gennym hefyd 2 fyfyrwr interniaeth newydd, Charles William Key ac Anna Selbmann. Bydd Charles yn canolbwyntio ei interniaeth ar fynegai draenogiaid a chymeriadaeth o gyfansoddiad y rhywogaeth yn yr aberoedd o amgylch Cymru. Bydd Anna yn gweithio ar wahanol brosiectau ymchwil, gan gynnwys dadansoddi cen draenogiaid a gwaith labordy arall. Yn olaf croeso i Gala González, ein myfyriwr Erasmus o Malaga (Sbaen). Bydd yn aros gyda ni am dri mis ac yn helpu ym mhob gwaith yn y maes ac yn y labordy.

Diolch yn fawr iawn i'r holl bysgotwyr draenogiaid sydd wedi darparu samplau o fannau o amgylch Cymru!



Cramenogion

Cranc coch



Cranc coch ifanc, *Cancer pagurus*.

Yr haf hwn mae gennym ddau brosiect cyffrous ar grancod coch ifanc. Mae Marc Uya yn fyfyrwr gradd Meistr sy'n datblygu model i ddisgrifio sut y gall y math o gynefin ddisgrifio faint o gyflenwad o grancod ifanc sydd i'w canfod ar y lan. Bydd y data hwn yn cyfrannu i gyfres amser sydd wedi ei hanelu at ddatblygu mynegai ar gyfer pysgodfa *Cancer pagurus*. Mae Babette Bookelar yn fyfyrwraig ar leoliad o'r Iseldiroedd sy'n astudio defnydd o gynefin gan grancod a chimychiaid ifanc mewn cynefinoedd sy'n is na'r distyll. Bydd Babette yn gweithio'n bennaf oddi ar Ben Llŷn.

Mae Gemma Rayner yn cwblhau astudiaeth ffrwythlondeb crancod ac astudiaeth morffometrig ac ar hyn o bryd mae'n ysgrifennu adroddiad llawn o'r data a gasglwyd llynedd.

Arolwg cynefin meithrin



Llinynnau masglau mân cewyll gorgimychiaid yn barod i'w defnyddio

Ymhle mae'r cramenogion ifanc yn cuddio? Cyfrinach a gadwyd. I ateb y cwestiwn hwn gwnaed astudiaeth beilot i adnabod dewisiadau cynefin cramenogion ifanc (cranc coch a chimwch) ym Mhen Llŷn yr haf diwethaf. Mae'n bwysig i bysgodfeydd cramenogion gael gwell syniad o niferoedd go iawn y crancod a'r cimychiaid yn nyfroedd Cymru. Eleni bydd y gwaith ymchwil yn parhau i ganfod mwy o dystiolaeth am eu cynefinoedd dewisol. Bydd llinynnau dau gawell gorgimychiaid (gyda maint masglau mân) yn cael eu defnyddio mewn gorsafoedd gyda gwahanol fathau o gynefinoedd a lefelau o amlygiad i geisio dal crancod ifanc a chimychiaid. Bydd y cewyll yn cael eu codi bob 3 neu 4 diwrnod gyda rhyw, hyd a chyflenwad y crancod a'r cimychiaid yn cael eu recordio a'r rhywogaethau yn y sgil ddalfa'n cael eu hadnabod. Bydd ffactorau amgylcheddol eraill yn cael eu cofnodi i ganfod os yw'r rhain yn effeithio ar ddewisiadau cynefin yn ogystal. Ar yr un pryd gwneir dadansoddiad cynefin i ymchwilio i natur glytiog ac amrywiaeth y cynefinoedd. Ar hyn o bryd mae'r offer ar gyfer yr arolwg yn barod i'w ddefnyddio yn y môr. Yn y dyfodol agos gobeithiwn ddangos ein canlyniadau ac ennill gwybodaeth am ddewisiadau cynefin crancod a chimychiaid ifanc yn nyfroedd Cymru.

Cimwch



Cimwch wyog gyda'r wyau yn barod i'w bwrw

Atgenhedlu

Mae gennym ddwy fyfyrwraig yn gwneud interniaeth dros yr haf gyda grŵp sydd wedi eu lleoli yn Sir Benfro ym Mehefin a Gorffennaf; Robyn Cloake a Hannah Finch-Saunders. Maent yn canolbwyntio ar gasglu samplau wyau o fenywod llawn wyau i edrych ar gyfnod datblygu'r wyau, ansawdd yr wyau, maint yr wyau a ffrwythlondeb mewn cimychiaid. Yn ychwanegol at hyn maent yn casglu data morffometrig i edrych ar eu maint pan fyddant yn aeddfed, a data pysgodfeydd misol ar gyfer crancod a chimychiaid. Mae Robert Scott-Nichols, sy'n fyfyrwr gradd meistr, yn gwneud gwaith tebyg ar feichiogrwydd ac ansawdd wyau yng Ngogledd Cymru.

Geneteg

Mae gwaith geneteg ar gimychiaid yn parhau gyda dyddiad cwblhau gwaith labordy wedi ei osod ar gyfer mis Medi. Bydd y gwaith hwn yn edrych ar amllder aml dadogaeth (gyda mwy nag un gwryw yn ffrwythloni wyau un fenyw) mewn poblogaethau gyda chyfraddau ymelwad gwahanol. Bydd hefyd yn edrych ar gymhareb gwrywod i fenywod sy'n atgenhedlu'n llwyddiannus. Mae gan gymhareb rhyw ac aml dadogaeth ddylanwad pwysig ar amrywiaeth genetig, sydd yn ei dro yn gallu dylanwadu ar wytnwch poblogaeth i bwysau. Gall yr wybodaeth hon fod yn bwysig wrth ystyried mesur rheolaeth a allai ddylanwadu ar gymhareb rhyw a strategaethau atgenhedlu'r boblogaeth.

Astudiaeth Drws Dianc Cimychiaid ym Mae Ceredigion

Mae casglu data wedi cychwyn unwaith eto ar gyfer astudiaeth drws dianc cimychiaid gyda Chymdeithas Pysgotwyr Bae Ceredigion (CBFA) ym Mae Ceredigion. Bydd pedwar pysgotwr yn codi rhes o gewyll sy'n cynnwys 4 cawell heb ddrws dianc, 4 cawell gyda drysau dianc bach a 4 cawell gyda drysau dianc mawr. Gobeithiwn gwblhau casglu'r data erbyn Awst 2014. Yn, ychwanegol rydym wedi bod yn treialu'r dyluniad ar gyfer y system gamera a fydd yn ffilmio'r digwyddiadau yn y cewyll. Gobeithio y bydd gennym y prototeip terfynol yn barod ar gyfer ei ddefnyddio yn y maes fis nesaf.

Corgimychiaid

Mae samplo'r gaeaf (pysgotwyr yn darparu samplau o gewyll) wedi gorffen. Daeth y gaeaf ag amodau tywydd dychrynlyd gydag o ac felly nid oedd llawer o gychod gorgimychiaid allan yn pysgota'r gaeaf hwn. Gyda'r samplau sydd gennym o'r llynedd rydym wedi cwblhau dadansoddiad labordy a bydd yr adroddiad llawn ar gael yn fuan (bydd yr adroddiad yn cael ei gymeradwyo gan bob pysgotwr sydd wedi cyfrannu cyn iddo gael ei gyhoeddi).

Mae samplo'r haf wedi dechrau. Rydym yn rhwydo gyda'r glannau i benderfynu ar y cynefin a ddefnyddir gan *Palaemon serratus* ifanc gyda'r bwriad o adeiladu rhaglen fonitro tymor hir ar gyfer mynegai *Palaemon*. Rydym yn defnyddio rhwydi gwthio bach, sef rhwydi Seine sydd wedi cael eu cynllunio'n arbennig ar gyfer dal berdys bach iawn (yn ddelfrydol unrhyw beth sy'n llai na 2-4cm) ac rydym hefyd yn gweithio gyda rhwydi dipio mewn pyllau glan môr a mannau anodd ar y traethau.



Niamh yn gweithio gyda un o'r rhwydi gwthio bach, a Kayla a Niamh yn dysgu sut mae tynnu un o'r rhwydi Seine sydd wedi eu cynllunio'n arbennig

Os gwyr unrhyw un am fannau ble maent yn dal *Palaemon serratus* bach iawn, iawn byddai gennym ddiddordeb mawr mewn clywed gennych. Cysylltwch â Jodie Haig ar j.haig@bangor.ac.uk gyda'r manylion.



Y Gronfa Pysgodfeydd Ewropeaidd:
Buddsoddi mewn Pysgodfeydd Cynaliadwy
European Fisheries Fund:
Investing in Sustainable Fisheries



Llywodraeth Cymru
Welsh Government